

# Nematodirus a Phrofion Cyfrif Wyau Ysgarthol

Mae misoedd Ebrill a Mai yn gyfnod lle bydd nifer o wŷn ifanc ar y caeau. Wrth i'r wŷn dyfu a dechrau pori, mae angen i ni ddechrau meddwl am y parasitiaid y byddant yn dod i gysylltiad â nhw ar y borfa. Mae'r erthygl ganlynol yn seiliedig ar ddeilliannau Prosiect Rheoli Parasitiaid Cyswilt Ffermio.

## Cefndir

Derbynnir mai'r brif rywogaeth llyngyr y bydd yr wŷn yn dod i gyswilt ag ef yn y lle cyntaf yw *Nematodirus*. Gall hwn fod yn barasit arbennig o niweidiol gan arwain at nifer fawr o farwolaethau a dirywiad mewn perfformiad. Mae ganddo gylchred bywyd gwahanol i barasitiaid eraill ac mae canfod yr amser cywir ar gyfer trin yn anodd. Mae'r haint fel arfer yn trosglwyddo o un cnwd wŷn i'r nesaf gyda bwlch o 12 mis rhwng yr wyau'n cael eu rhyddhau ar y borfa ac yna'n deor i ffurfio larfâu. Mae hyn yn ddibynnol iawn ar amodau hinsoddol. Gall cyfnodau hir o dywydd oer gyda chynnydd sydyn mewn tymheredd arwain at niferoedd uchel iawn yn deor ar yr un pryd, sy'n effeithio'n sydyn iawn ar wŷn. Gall hyn fod yn arbennig o niweidiol i wŷn ifanc gan fod y rhan fwyaf o wyau *Nematodirus* yn deor ar yr un pryd â phan mae'r wŷn ifanc yn dechrau pori.

## Prif Negeseuon

- Nid triniaeth llyngyr gwyn yw'r dewis gorau bob amser ar gyfer y dos 1af a'r 2il ddodar gyfer wŷn
- Gellir defnyddio cyfrif wyau ysgarthol (FEC) mewn wŷn ifanc yn y gwanwyn, ond byddwch yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau
- Defnyddiwch ragolygon SCOPS hefyd [www.scops.org.uk](http://www.scops.org.uk)

## Beth yw'r polisi cyfredol o ran rhoi triniaeth llyngyr yn y gwanwyn?

Yr hyn sy'n digwydd fel arfer ar bob un o'r ffermydd sy'n rhan o'r prosiect (fel sy'n digwydd ar draws y wlad) yw defnyddio triniaeth llyngyr gwyn (Grŵp 1BZ) ar gyfer y dos cyntaf (a'r ail o bryd i'w gilydd). Mae dau reswm am hyn:

1. Er bod ymwrthedd i driniaeth llyngyr gwyn yn eang ar gyfer y grŵp *Strongyle* (*llyngyr y ceffylau*) (pob math o lyngyr heblaw *Nematodirus*), Mae'n ymddangos ei fod yn parhau i fod yn gwbl effeithiol ar fwyaf y fferm i ddiogelu rhag *Nematodirus* (ychydig iawn o eithriadau sydd yn y DU)
2. Mae dosio'n ddewis rhad pan fo nifer o wŷn yn pori'r tir ac mae'n ddewis da gan y bydd yn lladd parasitiaid ar gamau cynt yn eu datblygiad na thriniaethau llyngyr eraill.

Bydd nifer yn cynghori i beidio â defnyddio Cyfrif Wyau Ysgarthol (FEC) ar yr adeg hon o'r flwyddyn gan fod *Nematodirus* yn gallu achosi problemau sylweddol i wŷn cyn i'r llyngyr llawn dwf ddechrau dodwy wyau. Er ein bod ni yma yn Techion yn cytuno gyda'r rhesymeg, fe wnaethom ni annog y ffermwyr a oedd yn rhan o'r prosiect i brofi gan fod modd i ni gael gwybodaeth ddefnyddiol a allai newid y dewis o driniaeth llyngyr.

## Y ddau gwestiwn yr oeddem yn awyddus i'w harchwilio yn ystod y prosiect oedd:

### C1 - A allwn ni ddefnyddio FEC ar gyfer wŷn yn y gwanwyn?

#### A. Gallwn - ond mae'n rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau.

- Yn aml iawn, bydd canlyniadau FEC yn dangos llawer o wyau *llyngyr y ceffylau* eraill a allai newid eich dewis o ran drensh fel y nodir isod.
- Bydd prawf FEC yn canfod pan fo *Nematodirus* llawn dwf yn bresennol, ond gall problemau godi cyn hynny felly mae'n bosibl y bydd angen i chi ddosio pan fo'r cyfrif wyau ysgarthol yn isel neu ar ddim. (Mae'r dehongliad yn allweddol).
- **OND** – gall wyau ymddangos cyn i arwyddion clinigol ddod i'r amlwg a/neu mewn cyfnodau pan fo'r risg yn isel. Mae hyn yn digwydd yn rheolaidd pan fo canlyniadau cyfrif wyau ysgarthol wedi helpu i sbarduno triniaeth yn gynt, gan osgoi colledion posibl o ran cynhyrchiant a lleihau halogiad gan wyau *Nematodirus*.

### C2 - Ai triniaeth llyngyr gwyn (1BZ) yw'r dos orau i'w ddefnyddio ar yr adeg hon o'r flwyddyn?


#### A. Nid bob amser!

- Os mai *Nematodirus* yw'r unig fath o lyngyr sy'n cael ei dargedu, mae'n debyg mai'r drensh gwyn (A-BZ) yw'r dewis gorau o hyd.

- **OND-** os mae llyngyr eraill yn bresennol (cyfrif canolig i uchel ar gyfer *Llyngyr y Ceffylau*), dylai ffermydd gydag ymwrthedd i driniaeth llyngyr gwyn ddefnyddio triniaethau llyngyr effeithiol eraill.
- Os nad yw *Llyngyr y Ceffylau* yn cael eu rheoli'n gywir, gallai hyn effeithio ar berfformiad ŵyn a chyfrannu at halogiad o'r borfa dros dymor hwy, ynghyd â baich llyngyr uwch yn hwyrach yn ystod y tymor.

## Beth wnaethom ni ei ddysgu oddi ar y ffermydd a oedd yn rhan o'r prosiect?

Mae'r graff isod yn dangos canlyniadau FEC ar gyfer yr holl brofion a wnaed ar ŵyn rhwng diwedd Mawrth a dechrau Mai ar y saith fferm ddefaid a oedd yn rhan o'r prosiect. Mae'r lliwiau ar y graff yn dangos y rhanad rhwng rhywogaeth y llyngyr a ganfuwyd.



- Mae'r canlyniadau'n dangos yn glir bod amrywiaeth o lyngyr yn bresennol yn y gwanwyn, ac yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r *Llyngyr y ceffylau* (bariau porffor) yn fwy dominyddol na *Nematodirus* sy'n groes i'r hyn y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn ei dybio.
- Roedd presenoldeb cymaint o *lyngyr y ceffylau* yn syndod i'n ffermwyr
- Roedd nifer o'r ffermwyr yn ymwybodol nad oedd y dreush gwyn yn gwbl effeithiol rhan *lyngyr y ceffylau* ac felly roeddent yn gallu newid i ddefnyddio grŵp gwahanol o driniaeth a fyddai'n fwy effeithiol ar gyfer y ddau fath o lyngyr.
- Arweiniodd hyn at well perfformiad gan yr ŵyn ar nifer o'r ffermydd fel y nodir yn rhai o'r astudiaethau achos.

**“Ers i ni newid i ddefnyddio triniaeth llyngyr melyn ar gyfer y dos a roddir ym mis Mai, yn seiliedig ar ganlyniadau FEC a chyngor Techion, mae'r ŵyn wedi tyfu'n dda iawn ac mae'r mwyafrif wedi cael eu gwerthu wedi'u pesgi erbyn canol mis Awst”.**

*David Lewis, Halghton Hall, Bangor Is Coed.*

### Pryd i brofi a dehongli'r canlyniadau:

- Dechreuwch gynnal profion FEC cyn gynted â bod ŵyn yn 5/6 wythnos oed (ni fyddwch yn canfod unrhyw wyau cyn hynny).
- Profwch bob grŵp ar wahân lle bo modd. Bydd yr her *Nematodirus* yn amrywio'n sylweddol rhwng caeau, yn enwedig rhwng y tir is a'r tir uwch gan fod tymheredd yn un o'r prif ffactorau ar gyfer deor.
- **Cymerwch ofal** wrth ddehongli profion cyfrif wyau ysgarthol ar yr adeg hon o'r flwyddyn. Er ei bod yn bosibl y bydd y canlyniadau yn y categori isel/canolig (rhwng 500 epg - neu hyd yn oed yn 0), byddem yn dal i argymhell rhoi triniaeth rhag *Nematodirus* os oes hanes ohono, tystiolaeth o arwyddion clinigol ac os mae'r amodau'n addas.
- Mae'r rhagolygon *Nematodirus* ar wefan SCOPS ([www.scops.org.uk](http://www.scops.org.uk)) hefyd yn adnodd defnyddiol er mwyn eich cynorthwyo i wneud penderfyniadau.
- Gofynnwch am help! Siaradwch gyda'ch milfeddyg neu eich cyngorydd iechyd anifeiliaid.

Am ragor o fanylion am Brosiect Rheoli Parasitiaid Cyswllt Ffermio, gweler yr adroddiad llawn ac astudiaethau achos yma: <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/our-farms/projects/parasite-management-project>

*Paratowyd yr erthygl dechnegol gan Techion UK ar ran Cyswllt Ffermio*